

## Cofion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf ag Annie Griffiths (Llansannan) sydd wedi colli ei chwaer, Mair, yn ystod yr wythnos. Gweddiwn y bydd yn adnabod cysur cwmni Duw a'i dangnefedd dros y dyddiau hyn.
- Anfonwn ein cofion hefyd at Eryl Jones (Nantglyn) sydd yn Ysbyty Glan Clwyd, a hefyd Sara Jones (Llanefydd) gafodd lawdriniaeth frys yno y penwythnos diwethaf. Cyflwynwn hwy, a phawb arall sydd heb fod cystal eu hiechyd yn ddiweddar, i ofal yr Arglwydd gan hyderu y byddant yn teimlo'n well yn fuan.
- Parhawn i gofio yn ein gweddiâu am eraill sydd yn mynd trwy amrywiol dreialon y dyddiau hyn gan eu cyflwyno'n dyner i ofal yr Arglwydd.

## Cefnogi Elusennau

Fe gofiwch i'r ieuencid (ac ychydig o rai hŷn!) aros yn effro trwy'r nos un noson ym Mehefin er mwyn codi arian tuag at Apêl Argyfwng Bwyd Gorllewin Affrica. Mae'r swm terfynol yn £300, a bellach wedi ei anfon ymlaen i Tearfund fydd yn sicrhau fod yr arian yn cyrraedd pen ei daith. Diolch o galon i'r ieuencid am eu hymdrech, ac am eu hawydd i helpu rhai mewn gwir angen. Diolch hefyd i bawb a'u cefnogodd.

## I ddod

- **Aduniad Llanw** yng Ngholeg y Bala Medi 28ain-29ain . Cyfle i addoli, cymdeithas ac astudio gair Duw. Pris: oedolyn £45, plentyn £35. I archebu lle neu fwy o fanylion, cysylltwch â'r coleg: 01678 520565 / [colegybala@ebcpcw.org.uk](mailto:colegybala@ebcpcw.org.uk)
- **Diwrnod i'r Brenin** – Gŵyl Gristnogol i'r teulu cyfan dydd Sadwrn, Hydref 6ed o 10.00 – 4.00 ar faes y sioe yn Llanelwedd. Mae Rhodri yn cymryd rhan yno ac yn cynnig lifft i bwy bynnag sy'n dymuno mynd, ond os bydd digon o ddiddordeb, gallwn drefnu bws. Cysylltwch â Rhodri neu Mair erbyn Medi 23ain os oes gennych ddiddordeb.
- **Cymdeithas Chwiorydd Peniel, Nantglyn a'r Groes** - cyfarfod cynta'r tymor nos Fawrth, Hydref 9fed.
- **Cyfarfod Chwiorydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** nos Fercher, Hydref 17eg am 7.00 yng Nghapel Mynydd Seion, Abergele yng nghwmni Elinor Owen.
- **Cyfarfod Chwiorydd Bro Aled** nos Iau, Hydref 25ain am 7:00 yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan yng nghwmni Hywel Meredydd, Tearfund fydd yn siarad am ei daith i Peru.

## Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau

# Llais Bro Aled

Dydd Sul, 16<sup>eg</sup> Medi 2012

Sylwch bod CIC Off i'r ieuencid yn Festri Llansannan nos Fercher nesaf o 7.30 – 8.30.

[www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com)

[www.llanw.org](http://www.llanw.org)

Bore da eto! Mae'r wythnos yma wedi hedfan i mi am ryw reswm. Mynd yn hen mae'n rhaid gen i! Dyna fo, mi rydan ni i gyd yn mynd i'r un cyfeiriad hefo'n gilydd! Mae Meirion hyd yn oed wedi cyrraedd y 50 erbyn hyn!! Mae Elin wedi dechrau cyfri 'un, dau, tri' rwan hefyd wrth fynd i fyny'r grisiau er ei bod yn drysu hefo'r 'pedwar, pump, chwech' ar hyn o bryd. Diddorol ydi'r busnes cyfri 'ma. Oes yna unrhyw greadur arall ar y ddaear sydd yn gallu cyfri tybed? Ydi defaid yn cyfri pobl wrth drïo mynd i gysgu?! Go brin nad oes yna'r un sydd hefo'r fath obsesiwn â ni hefo'r fusnes.

Mae wedi bod yn gamp go fawr i gael y ddynoliaeth i gyd i gytuno ar yr un mesur o amser – yr eiliad wrth gwrs! Fel y gwelsom yn ystod yr Olympics a'r Paraolympics, rydym wedi hollti'r eiliad bellach ac mae hyd yn oed canfed o eiliad yn gwneud gwahaniaeth rhwng ennill a cholli. Eto, fedrwn ni ddim ychwanegu dim at amser chwaith, dim ond ei gyfri.

Y peth sy'n rhyfedd hefo cyfri amser ydi fod un diwrnod neu wythnos i un person yn mynd yn gyflym tra mae'r un amser i rywun arall yn teimlo fel oes pys!

Beth mae'r Beibl yn ei ddweud? Wel, dysga ni mai Iesu yw Arglwydd amser ac mai rhodd oddi wrth Dduw yw ein hamser. Mae'n ein dysgu i wneud yn fawr o'r amser yr ydym wedi ei gael i geisio Duw (Eseia 55: 6). Dywed Iesu hefyd y byddwn i gyd yn rhoi cyfri iddo hyd yn oed am bob gair o'n heiddo (Mathew 12: 36). Oherwydd hynny, mi fydd gen i, a bod yn onest, ofn sefyll o'i flaen.

Eto, mae Ioan yn sôn am gael 'hyder yn Nydd y Farn' (1 Ioan 4:17). Sut hynny? Yr ateb ydi: oherwydd cariad Duw (adn. 9) a'r hyn sy'n dangos y cariad hwnnw ar ei orau un, sef person Iesu a'r iawn a dalwyd trosom yn ei farwolaeth o (adn.10). Mae pob eiliad awr o fywyd pob Cristion – hyd yn oed pob canfed o bob canfed o bob eiliad – wedi ei foddi yng ngwaed ei Arglwydd ac mae ei faddeuant o a'i gariad yn ein rhyddhau o bob ofn (adn. 18). Felly, er fy mod yn ofni o'm rhan fy hun am y cyfri y byddaf yn ei roi, eto, yng Nghrist fy Arglwydd y mae gennyf bob hyder.

*Dysg fi, Arglwydd, i gyfri fy nyddiau, ac i ddiolch i ti am bob eiliad a gefais gennyf. Yn yr eiliad hon, agor fy nghalon, a rho brawf i mi o'th faddeuant tragwyddol. Gad i mi sefyll o'th flaen yn hyderus trwy wybod fod gwaed fy Arglwydd Iesu yn fy nglanhau o bob pechod. Yn dy ras, gad i mi aros pob eiliad ac am byth yn dy gariad Di sy'n fy rhyddhau o bob ofn. Amen.*

Dewch i Oedfa'r Fro heno i glywed mwy am Ras Duw a'r hyn y mae'n ei olygu i ni bob dydd – gras Duw yn unig sy'n rhoi yr hyder rhyfeddol hwn i ni yng Nghrist.

*Aneurin*

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Elen Elias, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Mawrth • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Mercher • **CIC Off** – Adnabod Addoli i'r ieuencid yn Festri Llansannan o 7.30-8.30 gyda Steff Morris yn arwain.
- **Deunydd Hyfforddiant EBC** gan y Parch Ddr Elwyn Richards am 7.00 yng Nghapel Trefnant. Bydd yn agor y cwrs “Ewch yn ei Enw Ef” ac yn sôn hefyd am y cwrs “Archwilio'r Ffydd Gristnogol”. Hwn fydd y sesiwn cyntaf allan o chwech.
- Iau • **Cyfarfod Plant** yn Llanefydd am 3.15.
- Sadwrn • **Darlithoedd DAWN Cymru** yng Nghapel Seion, Baker Street, Aberystwyth SY23 2BJ. (Paned am 10.00, y darlithoedd yn cychwyn am 10.30.)
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams, bydd Rhodri yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

### Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. **Ar ddechrau'r oedfa, fe fydd aelodau Capel y Groes yn gofyn barn yr aelodau ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid.** Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00 gyda phlant y ddwy eglwys yn cyfarfod yn Groes.

### Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn dilyn rhan ddechreuol yr oedfa. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.
- Rhag-hysbysiad Yn dilyn oedfa'r daith yn Saron ddydd Sul, Medi 30ain, bydd barbeciw yn cael ei gynnal ar gae Ty'n Ffrith, trwy garedigrwydd y teulu, i godi arian tuag at Apêl Guatemala. Manylion pellach i ddilyn.

## Cyhoeddiadau

### Llansannan

- Sul yma Bydd y Parch Sion Aled Owen yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn dilyn y rhan ddechreuol o'r oedfa. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Mawrth Cinio'r Jangl am 12.00. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn dilyn y rhan ddechreuol o'r oedfa. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd y Parch Sion Aled Owen yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch Irfon Parry yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch Ioan Davies yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.

### Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,  
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i  
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.